

# Astudiaeth Achos 5

## Rheoli Perfformiad y gweithlu

**Yn ddiweddar, dechreuodd Paul weithio fel dirprwy reolwr mewn cartref gofal i oedolion. Mae'n cyfarfod â'i reolwr i drafod ei anghenion hyfforddi a datblygu. Ar ôl trafod beth fydd ei brif ddyletswyddau a chyfrifoldebau, mae Paul a'i reolwr yn teimlo'i fod angen datblygu rhagor o sgiliau a gwybodaeth yn ymwneud â rheoli perfformiad y gweithlu.**

Mae gan Paul rywffaint o brofiad blaenorol yn y maes hwn, ond yn ei rôl newydd, bydd yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau ac felly mae angen iddo ddatblygu rhagor o sgiliau a gwybodaeth. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddo, mae rheolwr Paul wedi ei gynghori i edrych ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) perthnasol. Bydd defnyddio'r NOS yn y ffordd hon yn helpu Paul i ddatblygu ymarfer ei hun ac i wybod sut y gall eu defnyddio i osod meincnodau i fesur perfformiad yn eu herbyn yn wrthrychol ac yn deg. Ar ôl i Paul edrych ar y rhain, gall y ddau gytuno ar gynllun datblygu drwy ddefnyddio'r pecyn cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ([www.cgymru.org.uk/datblygiad-proffesiynol-parhaus](http://www.cgymru.org.uk/datblygiad-proffesiynol-parhaus)).

O fewn y rhestrau NOS, mae nifer o safonau y gellid eu defnyddio mewn perthynas â rheoli perfformiad, yn cynnwys y canlynol:

- **SCDHSC 0043 Cymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun a datblygiad proffesiynol parhaus pobl eraill**
- **SCDLMC A1 Rheoli a datblygu eich hun a'ch gweithlu mewn gwasanaethau gofal**
- **SCDLMC A5 Rheoli dyraniad, cynnydd ac ansawdd gwaith mewn darpariaeth gwasanaeth gofal**
- **SCDLMC E10 Rheoli ymddygiad a pherfformiad gweithwyr mewn gwasanaethau gofal**

### SCDHSC 0043 – Cymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun a datblygiad proffesiynol parhaus pobl eraill

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion i Paul wrth reoli ei ddatblygiad proffesiynol parhaus ei hun ac eraill.

#### Mae'n ymdrin â 2 brif faes:

- Sefydlu a gwerthuso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau allweddol sydd eu hangen i gyflawni ei rôl gwaith ei hun a chynllunio i gwrdd a'i anghenion datblygu ei hun.
- Nodi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar eraill i gyflawni eu rôl gwaith, cynorthwyo staff i nodi eu cryfderau a'u hanghenion personol a phroffesiynol datblygu cynlluniau i gwrdd a rhain.

### SCDLMC A1 Rheoli a datblygu eich hun a'ch gweithlu mewn gwasanaethau gofal

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion i Paul mewn perthynas â datblygu ei hun ac eraill o fewn y sefydliad ac i wella darpariaeth gwasanaeth.

#### Mae'n ymdrin â phedwar maes:

- Derbyn cyfrifoldeb dros ei ddatblygiad proffesiynol parhaus ei hun drwy werthuso'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r rôl, datblygu a gweithredu cynlluniau i gwrdd a'i anghenion a gofyn am adborth ar sut y mae gweithgareddau dysgu wedi gwella perfformiad.
- Rheoli datblygiad eraill drwy asesu yn y gweithle a defnyddio gweithdrefnau ac arferion effeithiol ar gyfer goruchwylio ac adolygu perfformiad.
- Rheoli gwelliant parhaus darpariaeth gwasanaeth drwy adolygu a gwella systemau, a datblygu diwylliant sy'n cefnogi arloesedd, creadigrwydd a newid.
- Gwerthuso a gwella sgiliau, gwybodaeth ac ymarfer y gweithlu a'r systemau sy'n cynnal ansawdd a diogelwch y gwasanaeth a ddarperir.

### SCDLMC A5 Rheoli dyraniad, cynnydd ac ansawdd gwaith mewn darpariaeth gwasanaeth gofal

Mae'r safon hon yn darparu'r gofynion allweddol er mwyn i Paul allu rheoli a dyrannu gwaith i staff i fonitro cynnydd ac ansawdd y gwaith hwnnw.

#### Mae'n ymdrin â thri maes:

- Nodi beth yw'r meysydd gwaith i ddyrannu gwaith gan ystyried rolau a chyfrifoldebau, gwybodaeth a sgiliau pobl.
- Rheoli'r modd y caiff gwaith ei gyflawni drwy weithio mewn partneriaeth i osod dangosyddion perfformiad a thargedau.
- Gwerthuso'r gwaith a wnaed yn ôl dangosyddion perfformiad gan ddenfyddio dadansoddiadau i fesur, ac i wneud gwelliannau ac argymhellion.

### SCDLMC E10 Rheoli ymddygiad a pherfformiad gweithwyr mewn gwasanaethau gofal

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion i Paul mewn perthynas â rheoli ymddygiad a pherfformiad staff a sut i weithredu gweithdrefnau disgyblu pan fo perfformiad yn disgyn yn is na'r safonau disgwylidig.

#### Mae'n ymdrin â phedwar maes:

- Sicrhau bod y systemau a'r gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a bod y staff yn ymwybodol o'r safonau sy'n ddisgwylidig ganddynt ac yn deall y polisiau a'r gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael â materion sy'n codi.
- Dilyn polisiau a gweithdrefnau ar gyfer cychwyn prosesau disgyblu a sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw mewn perthynas â chamymddwyn neu berfformiad anfoddhaol.
- Crynhoi a chyflwyno tystiolaeth ar gyfer achosion a sicrhau bod gwrandawiadau'n cael eu cynnal yn unol â'r gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a sefydliadol priodol.
- Rheoli canlyniadau prosesau gan sicrhau bod canlyniadau a chatau gweithredu wedi'u cofnodi'n eglur a bod y goblygiadau ar gyfer unigolion, pobl allweddol ac eraill yn cael eu rheoli a'u cynnal.